BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# DATGANIAD ARDALOEDD TIRWEDD ARBENNIG

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP28

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**Diweddariad i Bapur Cefndir 2025**

1.1 Mae'r defnydd o ddynodiadau anstatudol i ddiogelu ardaloedd o dirwedd, fel Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATAau), wedi bod yn offeryn polisi o fewn system gynllunio'r DU ers amser maith. Mae dynodiadau o'r fath wedi cael eu defnyddio gan awdurdodau cynllunio lleol fel modd o ddiogelu tirweddau sensitif ac i ddatblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r nodweddion hynny sy'n rhoi ymdeimlad o le i ardaloedd lleol.

1.2 Paratowyd *'Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig - Adroddiad Terfynol'* Cyngor Bro Morgannwg gan ymgynghorwyr annibynnol a oedd yn gweithredu ar ran y Cyngor yn 2008. Mae'r asesiad a'r adroddiad terfynol yn diweddaru asesiadau tirwedd blaenorol a dynodiadau ATA a baratowyd ac a ddefnyddiwyd gan y Cyngor ers 1999 ac roedd yr ATAau yn seiliedig ar wybodaeth LANDMAP Lefel 3 a gasglwyd ac mae ei hansawdd wedi'i sicrhau mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru (Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt).

1.3 Diffiniwyd yr ATAau a nodwyd gan ddefnyddio'r fethodoleg meini prawf dynodi Ardal Tirwedd Arbennig a ddatblygwyd ar gyfer Consortiwm Awdurdod Lleol De-ddwyrain Cymru a oedd yn defnyddio data LANDMAP ac a oedd yn caniatáu i wybodaeth am y dirwedd gael ei chasglu, ei threfnu a'i gwerthuso mewn set ddata sy'n gyson yn genedlaethol, y mae ei hansawdd wedi'i sicrhau.

1.4 Argymhellodd yr adroddiad gyfanswm o chwe ATA. Sef:

1. Castell Alun
2. Dyffryn Ddawan Uchaf ac Isaf
3. Dyffryn Elái a Llethrau'r Grib
4. Nant Llancarfan
5. Basn Dyffryn a Llethrau'r Grib
6. Basn Cwrt-yr-Ala

1.5 Cafodd yr ATAau hyn eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026 (Mehefin 2017) (CDLl) fel Polisi MG17 - Ardaloedd Tirwedd Arbennig.

1.6 Nid oedd dynodiad yr ATAau wedi'i fwriadu i atal datblygiad, ond i sicrhau, lle roedd datblygiad yn cael ei dderbyn, bod ystyriaeth ofalus yn cael ei roi i elfennau dylunio'r cynnig megis y safle, cyfeiriadaeth, cynllun, a thirwedd, er mwyn sicrhau bod y rhinweddau a'r nodweddion arbennig y mae'r ATAau wedi'u dynodi ar eu cyfer yn cael eu diogelu.

1.7 Ers mabwysiadu'r CDLl, mae nifer o geisiadau preswyl, cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy wedi'u hystyried a'u cymeradwyo ym Mro Morgannwg ac mae effaith pob un wedi'i hystyried yn erbyn polisïau'r cynllun mabwysiedig (gan gynnwys Polisi MG17) a chanllawiau cenedlaethol.

1.8 Mae'r Cyngor o'r farn bod yr ATA fel y'i diffinnir yn 'Dynodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig - Adroddiad Terfynol' 2008 yn parhau i fod yn berthnasol, yn gyfredol, ac yn seiliedig ar yr arfer gorau cyfredol, ac felly nid ydynt wedi cynnal adolygiad o'r adroddiad i lywio'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN) sy'n dod i'r amlwg.

1.9 Wrth baratoi'r CDLlN, yn dilyn proses asesu aml-gam gadarn yn unol â'r Fethodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol a gymeradwywyd, mae'r Cyngor wedi nodi 5 safle datblygu allweddol sydd, oherwydd eu lleoliad yn agos at gysylltiadau trafnidiaeth

cynaliadwy, argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau a'u hyfywedd a'u cyflawnadwyedd, a'u hystyriaeth i gyfyngiadau, ynghyd â safleoedd sydd wedi'u hymestyn, yn sail i ofyniad tai'r CDLIN.


1.10 Wrth nodi'r safleoedd allweddol, mae'r Cyngor wedi ystyried amcanion strategol yr CDLIN a goblygiadau datblygu yn y dyfodol ar ddynodiadau presennol gan gynnwys yr ATAau.

1.11 Bydd un o'r safleoedd allweddol (HG1KS2 Tir i'r gogledd o Ddinas Powys) yn gofyn am ddiwygiadau i ffin yr ATA fel y'i cynhwysir yn y CDLI mabwysiedig (dylid cyfeirio at Bolisi MG17 (6) Basn Cwrt-yr-Ala am fanylion) a bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ar gyfer y safle yn y dyfodol ymgorffori mesurau lliniaru i leihau effaith y safle ar yr ATA.

1.12 Bydd y diwygiadau hyn i ffin yr ATA yn cael eu hymgorffori yn y cam Cynllun Adneuo ac mae Ffigur 1 isod yn darlunio'r safle allweddol HG1KS2 a'r diwygiad i ffin yr ATA (DNP2(1)).

1.13 Yn ogystal a'r gwelliannau sy'n ymwneud a'r safle allweddol HG1KS2, cynigir ymestyn yr ATA i alinio a ffin ddiwygiedig yr anheddiad i't de o ysbyty Llandough. Yn flaenorol, cafodd yr ardal hon ei heithrio o'r lletem las yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd 2011-2026 er mwyn galluogi ehangu'r ysbyty yn y dyfodol ac nid oes ei hangen mwyach. Dangosir y diwygiad hwn, nad yw'n cynnwys y tir i'r gorllewin o'r ysbyty a ddefnyddir fel cyfleuster iechyd awyr agored therapiwtig, yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Gwelliannau arfaethedig i ardal tirwedd arbennig DNP1 (6) Basn Cwrt-yr-Ala.**



RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

